

Sgwrs pob oed a gweithgareddau grŵp plant

Defnyddiwch y sgwrs hon a'r gweithgareddau i ddod â bywyd i Wythnos Cymorth Cristnogol yn eich eglwys. Mwy o adnoddau ar gael i'w lawr lwytho yn caweek.org/resources

- 1 **Sgwrs pob oed** tudalen 2
- 2 **Gweithgareddau grŵp** tudalen 4
- 3 **Taflen weithgareddau plant** tudalen 5

Tu fewn: sut y gallwch chi helpu Kadiatu i wireddu ei breuddwydion



wythnos
cymorth
cristnogol

12-18 MAI

Sgwrs pob oed

Byddwch angen:

- (Dewisol) Dau wirfoddolwr, un bachgen ac un eneth oedran ysgol fyddai orau
- Dau fag o felysion bach, gwahanol liw (neu blociau adeiladu o wahanol liw os nad yw defnyddio melysion yn addas).
- Ffilm stori Kadiatu (i'w lawr lwytho o caweek.org).



Cyflwyniad

- Gofynnwch am ddau wirfoddolwr cystadleuol (un bachgen ac un eneth) i ddod i'r tu blaen i weld pwy fydd y cyntaf y gwblhau'r her.
- Eglurwch mai'r enillydd fydd y cyntaf i ddiidoli'r bag o felysion neu'r briciau i bentwr o liwiau unigol.
- Cychwynnwch yr her ond yna torrwch ar eu traws sawl gwaith er mwyn rhoi help i'r bachgen - efallai trwy ei helpu i ddiidoli neu trwy fwyta ambell i felysen fel bod ganddo lai i'w didoli. Neu, fe allwch ei gwneud yn fwy anodd i'r eneth - trwy roi un llaw tu ôl i'w chefn o bosibl, neu roi gorchudd ar ei llygaid, neu drwy chwalu ei phentwr. Gwnewch hi'n glir eich bod yn annheg.
- Ar ddiwedd yr her, llongyfarchwch yr enillydd ac yna gofynnwch i'r cystadleuwyr sut deimlad oedd yr her a be oeddent yn ei feddwl o'r ymyriadau.
- Diolchwch i'r gwirfoddolwyr a gofynnwch iddynt fynd yn ôl i'w seddi gyda'r hyn sydd ar ôl o'r melysion fel rhodd.
- Gofynnwch i'r gynulleidfa a oedd yr her yn deg.
- Eglurwch fod yr her yn ymddangos yn deg ar y cychwyn ond wrth iddo fynd ymlaen daeth yn amlwg yn annheg ac wedi ei drefnu fel bod gan (enw'r bachgen) fantais dros (enw'r eneth). Oherwydd mai geneth oedd hi, chafodd (ei henw) ddim mo'r un cyfle i'w helpu i lwyddo.
- Er mai dim ond dipyn o hwyl oedd hyn, yn anffodus mae'n cynrychioli sut fywyd sydd gan nifer o enethod a merched yn y byd.
- Dywedwch stori Kadiatu, unai trwy ddangos ffilm ei stori neu trwy ddefnyddio'r wybodaeth trosodd.

Stori Kadiatu

Mae Kadiatu Konneh yn 11 oed ac mae ganddi bedwar brawd a dwy chwaer.

Mae Kadiatu'n byw mewn gwlad o'r enw Sierra Leone yng Ngorllewin Affrica. Mae'n breuddwydio y bydd hi ryw ddydd yn feddyg. Ble mae Kadiatu'n byw, fodd bynnag, dyw genethod ddim yn cael eu cymell i fynd i'r ysgol oherwydd maent yn fwy tebygol o briodi a chael teulu yn ifanc iawn ac yna'n gorfod gofalu am y cartref. Mae dwywaith gymaint o fechgyn yn gorffen yr ysgol yn Sierra Leone o'i gymharu â genethod.

Mae Kadiatu'n credu ei bod yn bwysig i enethod fynd i'r ysgol er mwyn iddynt allu gwireddu eu breuddwydion a gwneud gwahaniaeth yn eu cymuned. 'Mae addysg yn bwysig iawn i enethod,' meddai. 'Pan fyddwch yn addysgu genethod, rydych yn addysgu cenedl gyfan.'

Mae Kadiatu wrth ei bodd mynd i'r ysgol. Ei hoff bwnc yw gwyddoniaeth ac mae'n mwynhau chwarae pêl droed, pêl fasedg a rhaff sgipio gyda'i ffrindiau.

Mae Kadiatu'n deffro am 5 y bore fel ei bod yn barod ar gyfer yr ysgol mewn da bryd. Cyn mynd i'r ysgol rhaid iddi helpu o amgylch y tŷ. Mae'r ysgol yn cychwyn am 7 y bore ac yn gorffen am 2 y prynhawn. Ar ôl ysgol, mae Kadiatu yn tynnu ei gwisg ysgol i ffwrdd, yn ei golchi'n barod ar gyfer y diwrnod canlynol ac yna'n helpu i baratoi pryd bwyd y teulu.

Mae Kadiatu wedi anfon neges atoch chi. Meddai, 'Fy neges yw ein bod ni hefyd am gael addysg fel chi. Gadewch iddyn nhw wybod ein bod ni yma, hefyd.'

'Pan fyddwch yn addysgu genethod, rydych yn addysgu cenedl gyfan.'

Kadiatu, 11.

Rhowch help llaw i Kadiatu

- Gyda'n gilydd, gallwn roi help llaw i enethod fel Kadiatu gael mynd i'r ysgol a gwireddu eu breuddwydion.
- Eglurwch fod eich eglwys yn cefnogi Cymorth Cristnogol, sy'n gweithio gyda rhai o gymunedau tlotaf y byd. Yn Sierra Leone mae partner Cymorth Cristnogol yn helpu genethod i ddod at ei gilydd i glybiau iechyd, ac i annog ei gilydd i fynd i'r ysgol.
- Yr Wythnos Cymorth Cristnogol hon (12-18 Mai) mae miloedd o bobl yng Nghymru, gweddill Prydain ac Iwerddon yn cymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian ac i weddio dros waith Cymorth Cristnogol.
- Eglurwch beth mae eich eglwys yn ei wneud ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol a sut all y gynulleidfa gymryd rhan.
- Gorffennwch trwy weddio dros Kadiatu, gwaith Cymorth Cristnogol a gweithgareddau eich eglwys dros Wythnos Cymorth Cristnogol.



Kadiatu yn yr ysgol gyda'i ffrindiau yn Sierra Leone

Gweithgareddau grŵp

I'w defnyddio mewn grwpiau plant ar y Sul neu ganol yr wythnos i archwilio themâu Wythnos Cymorth Cristnogol ymhellach:

- Chwaraewch siarâds 'swyddi' - actiwch neu darluniwch wahanol swyddi y mae pobl yn eu cyflawni, a gwelwch os gall y grŵp ddyfalu beth ydynt.
- Ewch o amgylch y grŵp i weld beth mae pobl am ei wneud ar ôl tyfu i fyny a pham. Siaradwch gyda'r grŵp ynghylch beth yr oeddech chi am ei wneud pan oeddech yn ifanc. Wnaethoch chi ddilyn y llwybr hwnnw? Pam neu pam ddim?
- Siaradwch am stori Kadiatu neu gwylwch y ffilm gyda'ch gilydd. Beth mae'r grŵp yn ei feddwl am enethod Sierra Leone sy ddim yn gallu mynd i'r ysgol? Beth fyddent am ei ofyn i Kadiatu petaent yn gallu? Beth dybient y gellid ei wneud i roi help llaw i bawb gael mynd i'r ysgol, boed nhw'n enethod neu'n fechgyn?
- Defnyddiwch atlas i chwilio am Sierra Leone a siaradwch am sut fywyd alli fod yno. Chwiliwch am ffeithiau ynglŷn â'r lle.
- Darllenwch Jeremeia 29:11 gyda'ch gilydd. Eglurwch sut y mae Duw wedi'n creu ni i gyd gyda gwahanol sgiliau, dymuniadau a galluoedd a bod ganddo gynlluniau am sut y gallwn ddefnyddio'r galluoedd hynny i wneud y byd yn lle gwych i fyw ynddo. Darluniwch o amgylch siâp rhywun ar ddarn mawr o bapur a gofynnwch i'r grŵp ysgrifennu neu ddarlunio y tu fewn i'r siâp yr hyn y tybient yw eu galluoedd. Beth allai'r grŵp ei wneud gyda'r galluoedd hyn i helpu Wythnos Cymorth Cristnogol? Alle nhw helpu'r oedolion i rannu amlenni neu wneud casgliad mewn lleoliad lleol gyda'u teulu? Alle nhw gynig gweddio dros y rhai sy'n casglu yn eich eglwys? Alle nhw ddefnyddio eu sgiliau i wneud rhywbeth yn yr eglwys (fel cacennau) yn gyfnewid am gyfraniad? Gwnewch restr o syniadau a phenderfynwch pa un i'w gyflawni.
- Gweddïwch dros y grŵp trwy ddefnyddio bag o felysion a ddefnyddiwyd yn ystod y Sgwrs Pob oed. Gan gymryd sylw o unrhyw alergedd, rhowch felysen i bob plentyn. Yn ddibynnol ar liw'r melysen a gafodd pob plentyn (edrychwch isod ac addaswch yn ôl y melysion sydd gennych), gallent weddio mewn ffordd sy'n addas i'r grŵp - gallent weddio ar lafar, yn dawel neu trwy ysgrifennu gweddi.



Melysen oren = gweddïo dros Kadiatu



Melysen melyn = gweddïo dros eu hysgol



Melysen gwyrdd = gweddïo y caiff pawb eu trin yn deg



Melysen coch = gweddïo dros waith Cymorth Cristnogol




Melysen glas = gweddïo dros gyfleoedd i helpu eraill

I ganfod mwy am Wythnos Cymorth Cristnogol ac i gymryd rhan ewch i caweek.org

Pan fyddaf wedi tyfu i fyny ...

Be wyt ti am fod pan wyt ti wedi tyfu i fyny?

Darlunia dy hun yn y fan yma a beth y byddet ti'n ei wisgo ar gyfer dy swydd



Dwi am fod yn

Dyma Kadiatu.



Mae Kadiatu yn 11 oed ac yn breuddwydio am fod yn feddyg, ond gallai'r ffaith mai geneth ydi hi, ei hatal.

Tro drosodd i weld pam

Mae Kadiatu'n byw mewn gwlad o'r enw Sierra Leone yn Affrica.

Yn Sierra Leone, mae genethod yn aml yn aros adref i edrych ar ôl y tŷ ac i ofalu am y plant, felly nid ydynt bob amser yn cael mynd i'r ysgol. Yn wir, mae dwywaith mwy o fechgyn yn cael mynd i'r ysgol na genethod. Ond mae Kadiatu'n benderfynol o wireddu ei breuddwyd o ddod yn feddyg felly mae'n codi'n gynnar i fod yn barod ar gyfer yr ysgol ac yn gwneud ei gwaith tŷ mor fuan ag y daw adref. Credwn y dylai pob geneth gael hawl cyfartal i ddysgu. Mae'n dweud, 'Rydan ni hefyd am gael addysg!' Cer amdani, Kadiatu!

Kadiatu Konneh, 11 oed, gyda'i chwaer fach yn Sierra Leone.



Geiriau, geiriau, geiriau

S	I	E	R	R	A	L	E	O	N	E
B	O	I	T	A	V	Ï	A	Y	C	G
B	E	C	H	G	Y	N	P	S	U	W
W	C	Ï	O	R	N	E	R	G	A	E
C	R	I	S	T	N	O	G	O	L	D
F	O	G	F	P	U	A	Y	L	P	D
C	Y	M	O	R	T	H	K	A	D	Ï
G	E	N	E	T	H	O	D	U	C	O
V	Ï	E	K	A	D	I	A	T	U	W
H	E	L	P	B	M	E	D	D	Y	G


Chwiliwch am y geiriau sydd wedi eu cuddio yn ein pos

SIERRA LEONE
CYMORTH
KADIATU
YSGOL
GENETHOD

BECHGYN
MEDDYG
HELP
GWEDDÏO
CRISTNOGOL

Gwylwch ddrysu!

Helpwch Kadiatu i ganfod ei ffordd i'r ysgol trwy ddrysa.



Ydach chi wedi clywed am y weddi pum bys ble rydych yn defnyddio pob bys ar eich llaw i'ch atgoffa i weddio dros rhywbeth neu rhywun? Darluniwch o amgylch eich llaw yma:

Defnyddiwch y gofod ym mhob bys i ysgrifennu gweddi am yr oll yr ydach chi wedi ei ddysgu heddiw. Gallech gynnwys Kadiatu, Cymorth Cristnogol, eich ysgol, a hyd yn oed chi'ch hun wrth ichi feddwl am eich dyfodol.